



Adran Addysg



Pwrpas yr Adran Addysg yw i sicrhau bod plant a phobl ifanc Gwynedd yn derbyn yr addysg a'r profiadau gorau yn ein hysgolion i'w galluogi i gyrraedd y safonau uchaf ac i feithrin y cymwysterau a'r sgiliau sy'n eu galluogi i fyw a ffynnu.

GWASANAETH YSGOLION

Cefnogi Arweinyddiaeth, Rheolaeth a Llywodraethiant Effeithiol Ysgolion

Cyfrifoldeb yr Adran Addysg yw hyrwyddo arweinyddiaeth, rheolaeth a llywodraethiant effeithiol ein hysgolion drwy gefnogi, arfogi a dal cyrff llywodraethol a thimau rheoli ysgolion yn atebol. Gwneir hynny mewn nifer o ffyrdd gwahanol yn ddibynnol ar anghenion ysgolion unigol.

Rhoddir cefnogaeth o safbwynt arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion drwy roi pennaeth profiadol yn fentor i bob pennaeth newydd yn ei flwyddyn gyntaf yn y swydd. Gwneir hyn hefyd drwy raglen gymhelliant a luniwyd ar y cyd rhwng yr Adran Addysg a Dysgu a Datblygu ar gyfer penaethiaid, timau rheoli a rheolwyr canol mewn ysgol.

Rhoddir cefnogaeth gan yr Adran Addysg i lywodraethwyr drwy sicrhau eu bod yn deall eu rôl ac yn gweithredu'n effeithiol, drwy roi cefnogaeth strategol ac ymarferol iddynt yn ôl yr angen, eu cynghori'n briodol, yn ogystal â thrwy ddarparu rhaglen o hyfforddiant bwrpasol ar eu cyfer er sicrhau llywodraethiant effeithiol ein hysgolion. Mae gan yr Adran Addysg hefyd bwerau ymyrryd i'w defnyddio pan nad yw ysgol yn cael ei llywodraethu'n briodol.

Gwasanaeth Gwella Ysgolion

Cyfrifoldeb yr Adran Addysg a GwE mewn partneriaeth gyda'n hysgolion yw addysgu ein plant, ac mae canlyniadau ein hysgolion yn gyson dda. Gwasanaeth gwella ysgolion yw GwE, sydd yn gweithio ar ran chwe Awdurdod Lleol y gogledd, i arwain, trefnu a chydlynu gwelliannau ym mherfformiad ysgolion.

Mae'r bartneriaeth rhwng yr Adran Addysg a GwE yn rhoi cefnogaeth a her i'n hysgolion er mwyn gwella ansawdd y dysgu a'r addysgu yn y dosbarth, i gefnogi arweinwyr i wella ansawdd yr arweinyddiaeth yn ein hysgolion – a hyn oll er mwyn gwella canlyniadau ymhellach ar gyfer ein plant a'n pobl ifanc.

Yng Ngwynedd, mae 83 o ysgolion cynradd, 12 o ysgolion uwchradd, 2 ysgol arbennig a 2 ysgol ddilynol.

Perfformiad

Mae'r ysgolion yn darparu addysg gynhwysol i blant a phobl ifanc hyd at 16 oed. Yng Ngwynedd, caiff addysg ôl-16 ei darparu mewn partneriaeth gyda'r colegau a'r ysgolion uwchradd yn Arfon, gan Goleg

Meirion-Dwyfor (Grŵp Llandrillo Menai) yn Nwyfor a Meirionnydd ac Ysgol Godre'r Berwyn yn ardal Y Bala.

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cyfarwyddyd clir i Awdurdodau Lleol beidio a chyhoeddi canlyniadau addysgol haf 2019, ac mae trafodaethau'n parhau gyda Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r modd y gellir dal Awdurdodau Addysg yn atebol am berfformiad heb ddata cymharol o berfformiad ar draws Cymru.

Trawsnewid y gyfundrefn ysgolion

Yn dilyn ymgynghori ar gynaliadwyedd y gyfundrefn addysg yng Ngwynedd, ynghyd â phryderon cyffredinol nad yw'r gyfundrefn ysgolion bresennol yn gynaliadwy, bu i Gabinet y Cyngor fabwysiadu'r egwyddorion addysg addas i bwrpas canlynol fydd yn sail ar gyfer gwireddu gweledigaeth yr Adran Addysg a datblygu'r gyfundrefn i sicrhau addysg o ansawdd uchel i blant a phobl ifanc Gwynedd ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain, sef:

- Cyfundrefn o ysgolion uwchradd hyfyw
- Dim mwy na dau ystod oedran o fewn yr un dosbarth yn y cynradd
- Oddeutu 80% o amser digyswllt i'r Pennaeth ganolbwyntio ar faterion arweinyddiaeth yn y cynradd.

Yn sgil mabwysiadu'r egwyddorion, bydd y maes hwn yn trosglwyddo'n rhan o waith dydd i ddydd yr adran gan y rhagwelir nad proses gyflym, yn ystod cyfnod y Cyngor hwn, fydd gweithredu'r egwyddorion ar draws y gyfundrefn. Byddwn yn symud ymlaen yn bwylllog i sicrhau fod y gyfundrefn addysg yn gallu ymateb i'r newidiadau enfawr sydd ar y gorwel, megis newidiadau i drefn arolygu ysgolion (Estyn), ynghyd â newidiadau sylweddol iawn i'r cwricwlwm a threfniadaeth ein hysgolion yn sgil argymhellion Yr Athro Donaldson.

Cryfhau Arweinyddiaeth

Mae arweinyddiaeth ysgolion yn allweddol er mwyn sicrhau'r deilliannau gorau i ddysgwyr. Deilliodd y prosiect hwn o gyfnod ble gwelwyd prinder ymgeiswyr am rai swyddi arweinyddiaeth mewn ysgolion. Mae'r sefyllfa honno wedi gwella erbyn hyn ac yn sgil datblygiad *Cynnig Proffesiynol GwE*, sef bwydlen cynhwysfawr o hyfforddiant i ddatblygu arweinwyr, rheolwyr canol, ac ymarferwyr ar bob lefel yn ein hysgolion, bydd y prosiect yn trosglwyddo'n rhan o waith dydd i ddydd yr adran. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i ymateb i anghenion arweinwyr a darpar arweinwyr ein hysgolion drwy sicrhau mentora, sesiynau cymhelliant ynghyd â phrofiadau gwerthfawr iddynt pan gyfyd y cyfle i ni allu gwneud hynny.

TÎM MODERNEIDDIO ADDYSG

Mae rhai o adeiladau ein hysgolion yn hen ac yn anaddas i gyfarch anghenion dysgu ac addysgu ein plant yn y dyfodol. Pwrpas y gwasanaeth yma ydy cynllunio a gwireddu prosiectau arloesol i addasu ysgolion neu adeiladu ysgolion newydd er mwyn i blant a phobl ifanc Gwynedd gael eu haddysgu yn yr amgylchedd dysgu gorau posib i'w galluogi i ffynnu.

Dros y cyfnod 2012-2022 bydd y Cyngor wedi llwyddo i fuddsoddi gwerth £69 miliwn i wella cyflwr ac amgylchedd dysgu yr ysgolion canlynol er lles plant y sir:

- Ysgol yr Hendre, Caernarfon
- Ysgol OM Edwards, Llanuwchllyn
- Ysgol Craig y Deryn, Llanegryn
- Ysgol Penybryn, Tywyn
- Ysgol Bro Llifon, Groeslon
- Ysgol Hafod Lon, Penrhyndeudraeth
- Ysgol Glancegin, Maesgeirchen
- Ysgol Bro Idris, Dalgylch Dolgellau
- Ysgol Godre'r Berwyn, Y Bala
- Ysgol y Garnedd ac Ysgol y Faenol, Bangor
- Ysgol Trefferthyr, Cricieth.

Mae'r Tîm Moderneiddio Addysg yn datblygu modelau darparu addysg hyfwr sy'n ceisio:

- sicrhau amgylchedd dysgu o'r radd flaenaf i blant a staff ysgolion Gwynedd
- gwella amodau ac amgylchiadau i benaethiaid er mwyn eu galluogi i arwain a rheoli ysgolion yn effeithiol a effeithlon
- sicrhau'r defnydd gorau a mwyaf effeithiol o gyllideb yr Adran Addysg.



Darpariaeth Ôl-16

Blaenoriaeth Gwella 2



Mae amrywiaeth yn y ffordd y caiff addysg ôl-16 ei ddarparu ar draws y sir. Caiff ei ddarparu mewn partneriaeth gyda'r ysgolion uwchradd a'r colegau yn Arfon, gan Goleg Meirion-Dwyfor (Grŵp Llandrillo Menai) yn Nwyfor a Meirionnydd ac Ysgol Godre'r Berwyn, yn ardal Y Bala.

Mae gwaith ymchwil pen-desg ynghyd â gwaith maes gyda rhanddeiliaid allweddol wedi bod yn mynd rhagddo er mwyn ystyried rhinweddau'r gwahanol ddarpariaethau sy'n weithredol ar hyn o bryd, ynghyd â'r cyfleoedd a'r heriau i'r dyfodol. Mae bwriad llunio adroddiad ar y ddarpariaeth gyfredol ar draws y sir fydd yn sail i ystyried a oes achos dros newid ai peidio i'r ddarpariaeth ôl-16 yn y dyfodol.

Dalgylch Bangor

Blaenoriaeth Gwella 2



Mae nifer o ysgolion cynradd yn nalgylch Bangor (ac yn arbennig yn ardal Penrhosgarnedd) yn llawn neu'n orlawn. Rydym wedi llwyddo i ddenu arian gan Lywodraeth Cymru i'w fuddsoddi yn narpariaeth addysg y dalgylch, gyda'r Cyngor yn darparu hanner yr arian yn ogystal, ynghyd â chyfraniadau a ddaw yn sgil caniatâd cynllunio i ddatblygu tai newydd yn yr ardal.

Rydym wedi adolygu'r ddarpariaeth addysg gynradd ym Mangor, ac mae'r Cabinet wedi cymeradwyo cynllun gwerth £12.7m. Fel rhan o'r cynllun, bydd ysgol newydd i 420 o ddysgwyr yn cael ei hadeiladu ar gyfer Ysgol y Garnedd erbyn Medi 2020. Rydym hefyd wedi cychwyn ar y gwaith o addasu safle ac adeilad presennol Ysgol y Faenol, a fydd hefyd yn cynnwys gofod cymunedol, ar gyfer 315 o ddysgwyr. Mae rhai anhawsterau y tu hwnt i'n rheolaeth wedi golygu na fydd Ysgol y Faenol wedi'i chwblhau tan Ionawr 2021.

Dalgylch Trefferthyr, Cricieth

Blaenoriaeth Gwella 2



Mae'r Cyngor wedi penderfynu adeiladu ysgol gynradd newydd yn nalgylch Trefferthyr, Cricieth yn sgil cyflwr gwael yr adeilad presennol.

Byddwn yn cwblhau'r gwaith o gynllunio ac adeiladu'r adeilad newydd erbyn Medi 2021. Mae'r gwaith yn mynd rhagddo'n dda, a bydd yr ysgol yn cynnwys cyfleusterau ar gyfer y blynyddoedd cynnar ynghyd â gofod i'r cylch meithrin.

Cydweithio Meirionnydd

Blaenoriaeth Gwella 2

Yn ddiweddar, mae'r Adran Addysg wedi bod yn cydweithio efo ysgolion uwchradd Meirionnydd er mwyn edrych ar y drefn bresennol o ddarparu addysg uwchradd yn yr ardal, ac i adnabod yr heriau sy'n wynebu'r ysgolion o safbwynt recriwtio athrawon, rheolwyr canol ac arweinwyr yn sgil maint yr ysgolion uwchradd.

Mae bwriad cynnal ymchwil ar y cyd efo penaethiaid yr ysgolion er mwyn canfod datrysiadau creadigol fyddai'n arwain at gydweithio rhwng yr ysgolion ym Meirionnydd er mwyn sicrhau bod ansawdd yr addysg yn gyson dda ac yn gynaliadwy i'r dyfodol.

GWASANAETH ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL (ADY)

Mae'r gwasanaeth yn cefnogi plant a phobl ifanc gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol – sy'n cynnwys meysydd anghenion dysgu penodol, cyfathrebu a rhyngweithio, nam golwg, nam clyw a meddygol/corfforol.

Mae'r gwasanaeth yn rhoi ymyrraeth gynnar a chymorth wedi ei deilwra ar gyfer pob disgybl unigol drwy dîm o athrawon a chymorthyddion arbenigol. Mae'r gwasanaeth yn cynnig cynhaliaeth i ysgolion trwy'r Gwasanaeth Seicoleg. Mae pob disgybl yn cael mynediad llawn i ysgolion Gwynedd gan sicrhau, felly, fod pob plentyn yn cyrraedd ei lawn botensial.

Trawsnewid y ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad

Blaenoriaeth Gwella 2



Mae gwaith eisoes wedi'i gyflawni i drawsnewid y gwasanaeth anghenion dysgu ychwanegol a chynhwysiad, er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc sydd ei angen yn derbyn y gefnogaeth fwyaf addas i'w galluogi i gyflawni eu potensial. Mae'r gwasanaeth hwn bellach yn ddarpariaeth dros Wynedd a Môn, a thrwy gyfrwng y trawsnewid hwn, mae'r ffocws wedi bod, ac yn parhau, ar hyfforddi ac arfogi gweithlu ein hysgolion gyda'r sgiliau a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i gefnogi ein plant a'n pobl ifanc mwyaf bregus i'w galluogi i gyflawni eu potensial. Mae'r gwaith o ddatblygu'r gwasanaeth ymhellach mewn rhai meysydd megis y blynyddoedd cynnar ac ôl-16 yn parhau.

Byddwn yn parhau i ddatblygu'r gynhaliaeth yn y dosbarth a sut mae hyn yn cael ei drefnu, gan roi sylw penodol i'r ddarpariaeth cyn-ysgol, darpariaeth ôl-16 ac ysgolion arbennig. Byddwn hefyd yn adeiladu ar y gwaith partneriaethol presennol rhwng ein hysgolion arbennig a chydag ysgolion prif lif yr awdurdod er mwyn gwella profiadau dysgu plant ag anghenion dwys a chymhleth. Craidd y gwaith yma fydd sicrhau bod ein systemau yn cyd-fynd â gofynion y ddeddfwriaeth newydd Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru.

GWASANAETH LLES A CHYNHWYSIAD

Mae'r gwasanaeth lles a chynhwysiad yn cefnogi ysgolion i hyrwyddo presenoldeb, ymddygiad cadarnhaol a chefnogaeth i blant a phobl ifanc sydd yn profi anawsterau ymddygiadol, emosiynol a/neu ddatblygiad cymdeithasol. Cyflwynir y gefnogaeth yma gan dîm o athrawon arbenigol, swyddogion lles, cwnselwyr ysgol a chymorthyddion arbenigol.

Rydym yn sicrhau bod disgyblion ag anghenion emosiynol ac ymddygiadol yn cael eu cynnwys yn llawn o fewn ysgolion Gwynedd drwy hyfforddi, cefnogi ar lawr dosbarth a darparu gwasanaeth cynnal ymddygiad y tu allan i ysgolion prif lif. Mae'r gwasanaeth lles yn hyrwyddo presenoldeb drwy weithio gyda disgyblion, ysgolion a theuluoedd. Mae presenoldeb ysgolion Gwynedd dros y dair blynedd ddiwethaf wedi bod yn gyson dda.

Canran presenoldeb mewn ysgolion ✓			
Cynradd	95.3%	94.8%	94.8%
	2016/17	2017/18	2018/19
Uwchradd	95.2%	94.7%	94.5%
	2016/17	2017/18	2018/19

Canran o waharddiadau parhaol yn yr ysgolion			
blwyddyn hyd at haf - 2018			
	2018	2019	
Cynradd	5.2%	1.7%	
Uwchradd	5.3%	3.4%	

Er bod presenoldeb yn uchel a chyfraddau gwaharddiadau parhaol yn isel, mae'r her o gynnal a hyrwyddo lles a chynhwysiad yn dwysáu gyda nifer cynyddol o ddisgyblion yn arddangos ymddygiad heriol. Bydd y gwasanaeth yn sicrhau bod ein hysgolion wedi eu hyfforddi a'u cefnogi'n gywir i gwrdd â'r her.

Yn sail i hyn oll, mae'r gwasanaeth yn darparu arweiniad arbenigol ym maes diogelu. Darperir hyfforddiant a chynghor arbenigol i ysgolion ar draws yr awdurdod.

YR IAITH GYMRAEG

Mae'r Gymraeg yn treiddio drwy holl waith a gwasanaethau'r Adran Addysg. Mae dogfen statudol 'Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg' yn gosod disgwyliadau clir i'r adran ac i'n hysgolion ar gyfer y Gymraeg fel pwnc ac fel cyfrwng dysgu. Yn ystod 2020-21, yn unol â'r rheoliadau newydd a gyhoeddwyd ar 1 Ionawr 2020, byddwn yn llunio ac yn ymgynghori ar ddogfen newydd 'Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg' fydd yn disodli'r ddogfen bresennol ym Medi 2021. Bydd cyfnod y cynllun newydd yn 10 mlynedd er mwyn cyd-fynd ac ategu targedau Llywodraeth Cymru yn *Cymraeg 2050*.



Mae Gwynedd wedi arwain ar waith arloesol i ddylanwadu ar ddefnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg yn yr ysgolion cynradd drwy gyfrwng y Siarter Iaith Gymraeg. Pwrpas y Siarter yw cael y plant i siarad Cymraeg y tu allan i'r dosbarth, gan sicrhau cyfranogiad gan bob aelod o gymuned yr ysgol i wireddu'r nod. Mae'r adran hefyd wedi arwain a chefnogi Llywodraeth Cymru i ledaenu'r Siarter Iaith yn genedlaethol.

Gwynedd yw'r unig sir ar draws Cymru sydd wedi llunio Strategaeth Iaith Uwchradd fel dilyniant i'r Siarter Iaith, ac roedd yr ysgolion cynradd ac uwchradd fel ei gilydd yn awyddus i weld dilyniant sicr i'r

Siarter laith. Un gwahaniaeth sylfaenol yng nghyd-destun y Strategaeth laith Uwchradd yw ei fod yn ymwneud â hyrwyddo defnydd ffurfiol ac anffurfiol o'r Gymraeg.

Hybu Defnydd o'r Gymraeg ymysg Plant a Phobl Ifanc

Blaenoriaeth Gwella 5



Yn sgil llwyddiant y Siarter, mae galw cynyddol wedi bod i sicrhau dilyniant iddi yn yr ysgolion uwchradd. Mae tystiolaeth o waith ymchwil a gomisiynwyd gan yr Adran Addysg yn profi'r angen am gynllun a strategaeth i hyrwyddo'r defnydd cwricwlaidd a chymdeithasol o'r Gymraeg yn ein hysgolion uwchradd. Rydym wedi bod yn cydweithio gyda phob ysgol uwchradd i lunio cynllun gweithredu unigol mewn ymateb i weledigaeth a gofynion y Strategaeth laith Uwchradd, ac ar y cyd â'r ysgolion rydym wedi rhoi sylw penodol i gyfrwng iaith y ddarpariaeth ar draws y cwricwlwm yng Nghyfnod Allweddol 3, 4 a 5.

Rydym yn parhau i gyflogi Cydlynedd Siarter laith Cynradd ynghyd â Chydlynedd Strategaeth laith Uwchradd er mwyn darparu her a chefnogaeth briodol i'n hysgolion cynradd ac uwchradd i ddylanwadu'n gadarnhaol ar ddefnydd plant a phobl ifanc o'r Gymraeg. Yn sgil llwyddiant y Siarter laith yng Ngwynedd, bydd Fframwaith Siarter laith Llywodraeth Cymru yn dod i rym yn ystod 2020-21. Mae'r Fframwaith newydd hwn yn cynnwys y sector cynradd ac uwchradd, a byddwn yn canolbwyntio ar gefnogi pob ysgol i weithredu'n unol â'r gofynion cenedlaethol newydd. Ar yr un pryd, byddwn yn parhau i gydweithio ar gyfrwng iaith y ddarpariaeth ar draws y cwricwlwm yn yr ysgolion uwchradd. At hyn, bydd gan bob ysgol a chlwstwr gynllun gweithredu unigol fydd yn ymateb i anghenion a chyd-destun ieithyddol yr ysgolion a'r cymunedau o'u hamgylch er mwyn codi statws a chynyddu'r cyfleoedd i blant a phobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol.

Mae'r adran hefyd yn cynnal Canolfannau laith sy'n darparu cwrs dwys yn y Gymraeg i fewnfudwyr er mwyn eu helpu i ddysgu Cymraeg a chyfrannu i fywyd addysgol a chymdeithasol Gwynedd. Mae'r canolfannau yma yn helpu ein hysgolion cynradd ac uwchradd i weithredu'r Polisi laith.

CANOLFAN FUSNES YSGOLION

Ers peth amser, mae cynnydd wedi bod ym mhryderon penaethiaid ysgolion ynglŷn a'u hamodau gwaith wrth iddynt orfod cyflawni nifer o rolau gwahanol; fel arweinwyr, rheolwyr, athrawon a gweinyddwyr. Mae arolygiadau Estyn yn ddieithriad yn dangos mai arweinyddiaeth effeithiol, gyda'r adnoddau ac amser digonol ynghlwm wrthi, sydd yn arwain at addysg dda a safonau uchel.

Ers Medi 2019 sefydlwyd y Ganolfan Fusnes Ysgolion er mwyn datblygu'r gefnogaeth a'r gynhafiaeth i'n hysgolion, a rhesymoli a rhannu'r gofynion rheolaethol. Gwaith craidd y Ganolfan Fusnes Ysgolion yw darparu gwasanaeth rheoli gwybodaeth (SIMS) i'r ysgolion cynradd, a chanolbwyntir hefyd ar osgoi darparu cytundeb lefel gwasanaeth i'r ysgolion cynradd sydd yn sicrhau gwasanaethau megis cyfieithu

ysgrifenedig a chyfieithu ar y pryd i ysgolion. Ceir ffocws hefyd ar leihau baich gwaith rheolaethol a gweinyddol penaethiaid ac athrawon.

GWASANAETH ADNODDAU

Pwrpas y gwasanaeth yma ydy rhoi cefnogaeth statudol angenrheidiol i ysgolion Gwynedd allu gweithredu o ddydd i ddydd. Mae'r gwasanaeth yn cynnwys mynediad i ysgolion, cyflogau a chontractau staff, glanhau, arlwyo a chynlluniau bwyta'n iach, a chludiant i ysgolion. Rhoddir hefyd gefnogaeth cyllidol, adnoddau dynol, iechyd a diogelwch a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu i ysgolion. Mae'r gwasanaeth hefyd yn rhoi cefnogaeth i Lywodraethwyr ysgolion.

Mae gwaith yr adran hon yn cyfrannu tuag at rai o Amcanion Llesiant Gwynedd, gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel

Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud

Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg

Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib